# CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR 28AIN MAWRTH 2018 AM 5.00PM

PRESENNOL:

Y Cynghorydd J. Bevan - Maer
Y Cynghorydd M. Adams - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, P.J. Bevan, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, M. Davies, D.T. Davies, K. Dawson, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, Ms E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, M. James, V. James, L. Jeremiah, Mrs B. Jones, S. Kent, G. Kirby, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, G. Simmonds, J. Simmonds, Ms E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. . Whittle, T. Williams, W. Williams.

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau Gweithredol), L. Donovan (Pennaeth Adnoddau Dynol Gweithredol), K.Cole (Prif Swyddog Addysg), L. Lane (Cyfreithiwr Corfforaethol), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro) ac E. Weale (Cyngor Dinas Caerdydd) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

**TEYRNGED I'R CYNGHORYDD HARRY ANDREWS, CYN-ARWEINYDD Y CYNGOR**

Gyda thristwch mawr cyhoeddodd y Maer farwolaeth y Cynghorydd Harry Andrews, cyn-Arweinydd y Cyngor ac Aelod Ward Gilfach. Gwnaeth Aelodau a Swyddogion sefyll am funud o dawelwch i ddangos parch.

Galwyd ar y Cynghorydd D.T. Davies i dalu teyrnged i'r Cyn-Gynghorydd Andrews a oedd wedi bod yn ffrind ac yn gydweithiwr am flynyddoedd lawer. Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at ymroddiad y Cynghorydd Andrews, a oedd yn cwmpasu pob agwedd ar ei fywyd gan gynnwys gwasanaethu fel Llywydd YMCA Bargod, Ynad, Pêl Droediwr, Dyn Teulu a Gwleidydd, rôl lle enillodd pob etholiad a daeth i frig pob pleidlais. Cyfeiriwyd at y nifer o gyraeddiadau yn ei yrfa wleidyddol, ac enwyd cwblhau adeilad Tŷ Penallta ac Ysbyty Ystrad Fawr fel dau o'i gyflawniadau mwyaf yn y rôl. Bu'r Cynghorydd Davies yn hel atgofion am allu di-ffael Harry i gyflawni pethau ar gyfer ei ward, ei ymrwymiad pendant i'w etholwyr, ei hiwmor da a gwnaeth gydnabod bod gormod o straeon a gormod o enghreifftiau o garedigrwydd i gofio pob un. Gyda thristwch, cofiodd y Cynghorydd Davies ei ymweliadau olaf â Harry yn yr ysbyty a'i sicrwydd bod meddyliau'r holl Gyngor, Aelodau a Swyddogion bellach gyda theulu Harry, yn enwedig ei wraig Doreen a'u plant a'u hwyrion.
Mynegodd y Cynghorydd C.P. Mann ei gydymdeimlad ar ran ei blaid a thalodd deyrnged i was llywodraeth leol gwych fel Aelod Ward a chyn-Arweinydd y Cyngor. Roedd yn berson a oedd

yn cael ei barchu ym mhob rôl, yn ymroddedig ac â gair caredig i bawb. Bydd yn cael ei golli'n fawr.

Mynegodd y Cynghorydd K. Etheridge ei dristwch o golli dyn mor wybodus, cymwynasgar a thosturiol, person gwirioneddol gofalgar a dyn o egwyddor.

I gloi mynegodd y Cynghorydd E.M. Aldworth ei thristwch wrth golli arweinydd penderfynol a gweledigaethol, y bydd pawb yn ei golli. Cofiodd eu cyfarfod cyntaf a'i drugaredd, ei gwrteisi a'i broffesiynoldeb, ac uwchlaw pob dim y ffordd barchus yr oedd yn cysylltu ag eraill. Trosglwyddodd y Prif Weithredwr Dros Dro ei chydymdeimlad ac atgyfnerthodd y negeseuon a gafodd eu cyfleu eisoes ar ran y staff.

**1. FFILMIO GWEDDARLLEDIAD A THREFNIADAU PLEIDLEISIO**

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ac y byddai ar gael yn gyhoeddus yn fyw ac ar archif drwy wefan y Cyngor. Esboniodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy godi dwylo.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs C. Andrews, A. Angel, C. Bezzina, L. Binding, W. David, N. Dix, G. Johnston, A. Leonard, J. Scriven, S. Skivens a B. Zaplatynski.

**3. DATGAN BUDDIANNAU**

Gwnaeth Mrs L. Lane (Cyfreithiwr Corfforaethol) a Ms E. Weale (Cyngor Dinas Caerdydd) ddatgan buddiant rhagfarnus yn Eitem 4 ar yr Agenda; mae manylion wedi'u cofnodi'r gyda'r eitem berthnasol.

**CYHOEDDIAD GAN Y DIRPRWY ARWEINYDD AC AELOD CABINET DROS YR ECONOMI, SEILWAITH A CHYNALIADWYEDD**

Cyflwynodd y Cynghorydd S. Morgan, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ar Gylchfan Pwll-y-Pant.

Cyfeiriwyd at yr effaith roedd y tywydd garw diweddar wedi'i gael ar gynnydd y gwaith, a chadarnhaodd bod y ddwy lôn wedi ailagor y bore yma. Byddai'r amser a gollwyd oherwydd yr eira a'r rhew yn golygu dychwelyd i un lôn yn rhedeg am ychydig wythnosau. Fodd bynnag, roedd hyn wedi'i gynllunio i ddigwydd yn ystod y gwyliau haf ym mis Awst pan fydd lefelau traffig wedi gostwng a bydd wedi'i gwblhau cyn i'r tymor ysgol ailddechrau.

Mewn perthynas â Heol Pwll-y-pant, rhoddodd y Cynghorydd Morgan sicrwydd na fyddai'r ffordd hon ar gau am ddau fis; byddai'r gwaith gofynnol yn yr ardal hon yn cael ei gynnal gan ddefnyddio system rheoli traffig. Yn yr un modd ar gyfer breichiau Bedwas a Threcenydd, roedd newidiadau i'r cynllun yn golygu na fyddai rheoli traffig yn ofynnol yn ystod cyfnodau prysur. Byddai'r gwaith hwn, yn dechrau ar 4 Ebrill 2018, yn cymryd tua phedair wythnos.

O ganlyniad i'r tywydd a sylwadau gan y cyhoedd mewn perthynas â lôn unigol yn rhedeg, byddai'r rhaglen 52 wythnos wreiddiol yn cymryd mwy o amser na a ragwelwyd yn flaenorol er mwyn cadw dwy lôn ar agor am gyfnod mor hir â phosibl, ond disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Tachwedd 2018 ar hyn o bryd. Mae'r cwmni Walters a'r Tîm Peirianneg yn parhau i gydweithio er mwyn gwneud cynnydd cyflym. Roedd y Dirprwy Arweinydd yn gobeithio y byddai'r cyhoeddiad hwn yn helpu i leddfu unrhyw ofidion o ran y gwaith sy'n mynd rhagddo.

**ADRODDIADAU SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

## 4. ADFERIAD POSIBL O GYNIGION ARBEDION 2018/19 A OHIRIWYD

Cyflwynodd Mr S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro) yr adroddiad a oedd yn manylu'r arbedion 2018/19 y gall fod angen eu hadfer yn dibynnu ar ganlyniad ystyriaeth y Cabinet o adroddiad pellach ar ddyfodol Canolfan Hamdden Pontllanfraith.

Yn y cyfarfod ar 22 Chwefror 2017, nododd y Cyngor y byddai angen dod o hyd i arbedion amgen o gyfanswm o £107k yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 os na fyddai'r cynllun arfaethedig i gau Canolfan Hamdden Pontllanfraith yn parhau. Yn ogystal â hynny, byddai angen twf cyllidebol ychwanegol o tua £17K am fod y Ganolfan Hamdden bellach yn cael ei dosbarthu fel safle unigol at ddiben asesiadau graddio. Ers cyfarfod y Cyngor, nodwyd costau blynyddol pellach o £12K mewn perthynas â chostau sefydlog am gyfleustodau a diogelwch y safleoedd ysgol gwag.

Yn y cyfarfod ar 28 Mawrth 2018, cytunodd y Cabinet i ohirio'r penderfyniad i gau'r Ganolfan Hamdden tan yn nes ymlaen yn 2018, ac ystyried y cynnig fel rhan o'r Strategaeth Chwaraeon a Hamdden 10 Mlynedd ehangach. O ganlyniad byddai arbedion amgen o £136K yn ofynnol felly gwnaeth y Cabinet hefyd gefnogi argymhelliad i'r Cyngor y dylid adfer yr arbedion wedi'u gohirio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19. Mae'r Cabinet hefyd yn cefnogi'r argymhelliad y dylid adfer yr arbedion wedi'u gohirio a nodir yn Adran 4.12 yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

- £66K o swyddi gwag ym maes Cymorth Iaith mewn Ysgolion Cynradd; ac
- Lleihau'r gostyngiad rhannol mewn arbedion arfaethedig o waith Cynnal Priffyrdd o £212K i 142K.

Cyfeiriodd Mr Harris yr Aelodau at baragraff 4.21 yn adroddiad y Cyngor a'r argymhelliad ym mharagraff 10.2 a cheisiodd eu cymeradwyaeth i adfer y cynigion arbedion wedi'u gohirio a nodwyd uchod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

Cafodd ei gynnig a'i eilio y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo.

Cafodd diwygiad ei gynnig a'i eilio bod y £136K yn cael ei sicrhau o'r 'Balansau Cronfeydd Cyfalaf' a'r 'cyllid Buddsoddi i Arbed', yn hytrach na gwneud toriadau pellach i wasanaethau addysg neu'r rhaglen cynnal a chadw ffyrdd.

Pwysleisiodd Mr Harris yr angen i sicrhau arbedion cynaliadwy ac y byddai defnyddio'r balansau neu gyllid buddsoddi i arbed ond yn caniatáu arbediad untro ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

Ceisiwyd eglurhad mewn perthynas â'r diffiniad o gronfeydd wrth gefn nas neilltuwyd a chadarnhaodd Mr Harris mai'r diffiniad cywir yw cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fel y nodwyd o fewn y datganiadau o gyfrifon. Ceisiwyd eglurhad pellach mewn perthynas â'r cynigion o fewn y diwygiad arfaethedig.

Yn hyn o beth, ceisiodd Swyddogion ohiriad byr er mwyn trafod â'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro a rhoi'r eglurhad a geisir gan Aelodau mewn perthynas â goblygiadau ariannol y diwygiad dan sylw.

Gohiriwyd y cyfarfod.

Ar ôl ailgynnull y cyfarfod cafodd y diwygiad wedi'i egluro ei gynnig a'i eilio y caiff yr arbedion o £136K eu sicrhau o'r Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi yn unig.

Atgoffodd Mr Harris yr Aelodau y byddai hyn ond yn sicrhau arbediad untro a bod yr arian hwn wedi cael ei glustnodi i hawlio arian ar gyfer prosiectau megis Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif o bosibl.

Drwy godi dwylo a nodi bod 44 yn erbyn a 0 yn ymatal, cofnodwyd bod y diwygiad wedi colli.

Drwy godi dwylo eto a nodi bod 17 yn erbyn a 0 yn ymatal, cofnodwyd bod y cynnig wedi llwyddo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodir yn adroddiad y Swyddog y dylid adfer yr arbedion wedi'u gohirio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 fel y nodir yn adran 4.12 yr adroddiad.

**5. PENODI SWYDDOG MONITRO DROS DRO**

Gwnaeth Mrs L. Lane (Cyfreithiwr Corfforaethol) ddatgan buddiant personol a rhagfarnus am fod yr adroddiad yn ymwneud â hi yn uniongyrchol a gadawodd y Siambr pan gafodd yr eitem ei thrafod.

Gwnaeth Ms E. Weale (Cyngor Dinas Caerdydd) ddatgan buddiant personol a rhagfarnus am i Gyngor Dinas Caerdydd roi cyngor cyfreithiol i'r awdurdod hwn drwy gytundeb lefel gwasanaeth a gadawodd y Siambr pan gafodd yr eitem ei thrafod.

Cyflwynodd Mrs C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro) yr adroddiad a geisiodd cymeradwyaeth i benodi Swyddog Monitro Dros Dro wrth recriwtio ar gyfer y swydd barhaol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro bod gofyniad statudol i gael swydd Swyddog Monitro dynodedig ac yn dilyn ymddeoliad Mrs G. Williams ac yn absenoldeb Mr R. Harris a oedd wedi bod yn gweithredu fel Dirprwy Swyddog Monitro'r Cyngor, roedd angen ailymweld â hyn.

Yn dilyn proses recriwtio wedi'i chlustnodi, roedd Mrs L. Lane wedi mynegi diddordeb mewn ymgymryd â'r rôl a chynigir y caiff hi ei phenodi tan y bydd deiliad newydd y swydd yn ymgymryd â swydd Pennaeth Cyfreithiol/Swyddog Monitro gwag. Nodwyd y byddai'r broses recriwtio ar gyfer y swydd wag yn dod i ben ym mis Ebrill.

Gofynnodd Aelod am eglurhad o ran cost y cytundeb lefel gwasanaeth i'r awdurdod. Cadarnhaodd Mr Harris nad oedd ganddo'r wybodaeth honno wrth law ond y byddai'n ei hanfon at yr Aelod drwy e-bost yn dilyn y cyfarfod.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad ac am y rhesymau a roddwyd yn adroddiad y Swyddog, cafodd ei gynnig a'i eilio y caiff yr argymhellion yn adran 10.1 (i) a 10.1 (ii) eu cymeradwyo a drwy godi dwylo cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD bod: -

(i) Lisa Lane, Cyfreithiwr, yn cael ei phenodi i swydd Swyddog Monitro Dros Dro tan y bydd deiliad newydd y swydd yn ymgymryd â rôl Pennaeth Cyfreithiol/Swyddog Monitro;

(ii) y cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Caerdydd i roi cymorth i Lisa Lane os bydd angen a/neu yn uniongyrchol i Swyddogion ac Aelodau eraill os oes angen, yn parhau tan y bydd deiliad newydd y swydd yn ymgymryd â rôl Pennaeth Cyfreithiol/Swyddog Monitro.

## 6. CYMERADWYO CYNLLUN BUSNES CYTUNDEB CYDWEITHREDU BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS RHANBARTH CAERDYDD

Cyflwynodd Mrs C. Harrhy, y Prif Weithredwr Dros Dro yr adroddiad a geisiodd cytundeb y Cyngor i fabwysiadu'r Cynllun Busnes Cytundeb Cydweithredu Drafft (Cynllun Busnes JWA) fel y Cynllun Busnes JWA ffurfiol.

Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys buddsoddiad o £1.2 biliwn, gan gynnwys datblygu Metro De Cymru, cymorth ar gyfer arloesedd a seilwaith digidol, datblygu sgiliau a helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith, hyrwyddo menter a thwf busnes a gweithgarwch ehangach ym maes adfywio a thai a helpu i greu 25,000 o swyddi yn y rhanbarth.

Hysbyswyd aelodau am y themâu strategol a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg a fyddai'n cael eu hystyried a'u datblygu o fewn bywyd y cynllun, y caiff popeth eu hasesu yn unol â'r Fframwaith Sicrwydd. Roedd manylion tri cham y cynllun o fewn adran 4.2.1 yr adroddiad a nodwyd y caiff pob cam o'r cynigion eu cyflwyno i Fwrdd y Rhaglen CCR i'w hasesu, a fydd yn gwneud argymhellion i'r Cabinet Rhanbarthol, a fydd yn ei dro yn gyfrifol am gadarnhau a yw'r cynllun ymgeiswyr yn gymwys i gael ei gynnwys. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr Dros Dro y byddai cyfranogiad Aelodau yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau o'r fath yn hollbwysig.

Amlinellodd Mr Steve Harris, y Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro oblygiadau ariannol y cynllun a nodwyd bod £734m wedi'i neilltuo ar gyfer y Metro (£503m o Lywodraeth Cymru, £125m o Lywodraeth y DU a £106m o Gronfa Datblygu Ewrop), gyda balans o £495m ar gael fel y ‘Gronfa Buddsoddi Ehangach’. Mae'r Gronfa Buddsoddi Ehangach yn cynnwys grant o £375m o Lywodraeth y DU a delir dros 20 mlynedd a £120m o gyfraniadau cyfalaf partneriaeth yr awdurdod lleol i'w hawlio fel y bo angen.

Esboniodd Mr Harris mai cyfanswm uchaf y gost refeniw i'r 10 Cyngor ar gyfer gwasanaethu'r ddyled i ariannu'r cyfraniad cyfalaf o £120m dros oes y Fargen Ddinesig yw £210.8m. Nodwyd mai cyfran CBS Caerffili o'r £210.8m yw £25.2m. Nodwyd hefyd mai cyfraniad cyfalaf Caerffili fyddai £6.23m dros gyfnod cychwynnol y rhaglen 5 mlynedd. Mae goblygiadau refeniw'r gofynion benthyg wedi cael eu cynnwys yng nghyllideb refeniw 2018/19 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 22 Chwefror 2018.

Siaradodd y Cynghorydd D. V. Poole, Arweinydd y Cyngor, am y cyfleoedd cyffrous a gyflwynir o fewn y Fargen Ddinesig, mwy o gyfleoedd cyflogaeth, tai, adeiladu a datblygu, cyfleoedd ar gyfer BBaChau, seilwaith digidol, prentisiaeth a fyddai'n fanteisiol am flynyddoedd i ddod, ac o fewn hyn i gyd byddai cyfranogiad Aelodau yn hanfodol. Yn bennaf drwy graffu a'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd, byddai union natur cyfranogiad Aelodau yn cael ei ddatblygu wrth i'r Fargen Ddinesig fynd yn ei blaen.

Cafodd ei gynnig a'i eilio y bydd y Cynllun Busnes JWA fel yr atodwyd yn Atodiad 1 adroddiad y Swyddog yn cael ei gymeradwyo ac y caiff y £6.23M mewn perthynas â chyfraniad cyfalaf CBS Caerffili yn ystod y cyfnod cychwynnol o bum mlynedd a gwmpesir gan Gynllun Busnes JWA ei gymeradwyo.

Cafodd diwygiad ei gynnig a'i eilio yn nodi ynghyd ag argymhellion 10.1 a 10.2 yn adroddiad y Swyddog, y dylid gwneud argymhelliad ychwanegol i sefydlu Bwrdd Prosiect yn cynnwys Swyddogion a Chynghorwyr, gyda chydbwysedd gwleidyddol er mwyn sicrhau deialog agored a llif gwybodaeth ar gynnydd y Fargen Ddinesig.

Rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd y byddai'n ymgysylltu'n llawn ag Aelodau drwy gydol y broses, ffurf yr ymgysylltu, p'un a fydd drwy Grŵp Prosiect neu ddulliau eraill o gyfathrebu i'w hystyried yn y dyfodol. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd bod dryswch ymhlith Aelodau o ran y Fargen Ddinesig ac IQE Datblygiad Dinas Caerdydd a oedd yn hollol annibynnol o'r Fargen Ddinesig a'r adroddiad o flaen yr Aelodau.

Roedd rhai Aelodau yn teimlo bod y dryswch hwn yn dangos yn glir bod angen mwy o gyfranogiad gan Aelodau yn y broses rhannu gwybodaeth a hefyd iddynt gael sicrwydd am

ecwiti buddiannau drwy gydol y fwrdeistref.

Trafodwyd cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau meithrin ar gyfer y dyfodol a chyfeiriwyd at brentisiaethau. Holodd Aelod ynglŷn â chais am wybodaeth ar y pwnc hwn a oedd yn weddill. Ymddiheurodd y Prif Weithredwr Dros Dro nad oedd y wybodaeth wedi cael ei derbyn, a chafodd yr Aelod dan sylw ei sicrhau y byddai'n cael ei darparu yn dilyn y cyfarfod.

Trafododd Aelodau gysylltiadau trafnidiaeth a darpariaeth trafnidiaeth ranbarthol gan gynnwys y Metro, a chyfeiriwyd at ddatganiad gan Lywodraeth Cymru na fyddai holl rwydwaith y Metro wedi'i drydaneiddio, a holwyd am yr effaith y byddai trydaneiddio rhannol yn ei gael. Cafodd Aelodau eu sicrhau gan y Prif Weithredwr Dros Dro nad oedd wedi clywed am unrhyw ddatganiad o'r fath ac nid oedd wedi cael unrhyw gadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â hyn. Os bydd hyn yn digwydd, bydd yn hysbysu Aelodau am unrhyw oblygiadau dilynol.

Rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd pellach o'i ymrwymiad i ymgysylltu ag Aelodau yn llawn. At hynny, roedd o'r farn na fyddai'r broses yn gweithio heb eu hymrwymiad a'u gwybodaeth yn ei symud ymlaen, a gofynnodd i'r Aelod ystyried tynnu'r diwygiad yn ôl.

Yna ceisiwyd eglurhad mewn perthynas â'r Papur Gwyrdd a chynigion ar gyfer ad-drefnu Llywodraeth Leol a'r effaith bosibl ar y Fargen Ddinesig. Rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd i Aelodau y byddai ymateb Caerffili yn adlewyrchu'r teimladau yn y Siambr y gallai'r awdurdod hwn sefyll ar ei ben ei hun ac ni fyddai'n croesawu unrhyw fath o ad-drefnu.

Cafodd y diwygiad ei gynnig a'i eilio unwaith eto yn nodi yn ogystal ag argymhellion 10.1 a 10.2, y bydd argymhelliad pellach i sefydlu gweithgor neu fwrdd datblygu prosiect o fewn 3 mis i'r cyfarfod hwn. Drwy godi dwylo a nodi bod 44 yn erbyn ac 1 yn ymatal, cofnodwyd bod y diwygiad wedi colli.

Drwy godi dwylo eto a nodi bod 17 yn erbyn a 2 yn ymatal, cofnodwyd bod y cynnig wedi llwyddo.

PENDERFYNWYD: -

(i) cymeradwyo Cynllun Busnes JWA (Cynllun Busnes Strategol CCR) fel yr atodwyd yn Atodiad A adroddiad y Swyddog;

(ii) cymeradwyo benthyg hyd at £6.23m mewn perthynas â chyfraniad cyfalaf CBS Caerfili yn ystod y cyfnod cychwynnol o bum mlynedd a gwmpesir gan Gynllun Busnes JWA.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00pm

Cymeradwywyd fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt a'u nodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 5 Mehefin 2018, cawsant eu llofnodi gan y Maer.

____________________________

MAER